## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A470 (NORTH STREET, RHAEADR GWY, POWYS) (GWAHARDD AROS) 2022

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adrannau 1(1), 2(1), 2(2), 4(2) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a pharagraff 27(1) o Atodlen 9 iddi, sy'n dod i rym ar 26 Mawrth 2022.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd aros ar unrhyw adeg ar ochr orllewinol y darn o gefnffordd yr A470 sy'n ymestyn i gyfeiriad y gogledd-orllewin o bwynt 28 o fetrau i'r gogledd-orllewin o linell cwrb ogleddol y B4518 Heol y Bont am bellter o 55 o fetrau yn North Street, Rhaeadr Gwy, Powys. Bydd esemptiadau, gan gynnwys un ar gyfer deiliaid bathodyn person anabl.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 24 Mawrth 2022 ymlaen gellir gweld copi o'r Hysbysiad hwn, y Gorchymyn, y plan a'r Gorchymyn sy'n cael ei ddirymu'n rhannol ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim drwy ebostio Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru neu ysgrifennu i'r Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ, gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1412662.

Os yw unrhyw berson yn dymuno cwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn, neu unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo, ar y seiliau:

a. nad yw o fewn pwerau perthnasol Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984; neu
b. na chydymffurfiwyd ag unrhyw un neu ragor o'r gofynion perthnasol,

caiff y person hwnnw, o fewn 6 wythnos i 24 Mawrth 2022, wneud cais i'r Uchel Lys i atal dros dro neu ddiddymu'r Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo.

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## THE A470 TRUNK ROAD (NORTH STREET, RHAYADER, POWYS) (PROHIBITION OF WAITING) ORDER 2022

The Welsh Ministers have made an Order in exercise of their powers under sections 1(1), 2(1), 2(2), 4(2) and 124(1)(d) of, and paragraph 27(1) of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984, which comes into force on 26 March 2022.

The effect of the Order is to prohibit waiting at any time on the western side of the length of the A470 trunk road that extends in a north-westerly direction from a point 28 metres north-west of the northern kerb line of the B4518 Bridge Street for a distance of 55 metres at North Street, Rhayader, Powys. There will be exemptions, including one for disabled person's badge holders.

During a period of 6 weeks from 24 March 2022, a copy of this Notice, the Order, plan and the Order being partly revoked can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders or may be obtained free of charge by emailing TransportOrdersBranch@gov.wales or writing to Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ, quoting reference number qA1412662.

If any person desires to question the validity of the Order, or of any provisions contained therein on the grounds:

a. that it is not within the relevant powers of the Road Traffic Regulation Act 1984; or
b. that any of the relevant requirements have not been complied with,

that person may, within 6 weeks of 24 March 2022, apply to the High Court for the suspension or quashing of the Order or of any provision contained therein.

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government